# DISGRIFIAD SWYDD

Dynodiad Swydd: Ecolegydd
Gradd: 7
Yn gyfrifol i: Ecolegydd

Pwrpas y Swydd:

Yn gorfforaethol, bydd deiliad y swydd yn cynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda chyflawni gwaith ymarferol gyda'r nod o sicrhau cadwraeth a gwella bywyd gwyllt, harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc. Bydd y gweithgareddau'n cael eu halinio â fframiau cyfeirio trosfwaol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Gweithredu Adfer Natur (cenedlaethol a lleol), Deddf Llywodraethu'r Amgylchedd, Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Ffermio Bro, targedau 30x30 Y Dofodol y Bannau (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) a'i genhadaethau.

Yn swyddogaethol, bydd yr Ecolegydd yn cael ei arwain gan yr Uwch Swyddogion Adfer Natur fel rhan o'r Tîm Adfer Natur. Bydd deiliad y swydd yn cynorthwyo'r Tîm Adfer Natur i gynllunio a gweithredu mentrau cadwraeth ecolegol i sicrhau adferiad natur effeithiol, lliniaru ac adfer cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion tirwedd yn y Parc Cenedlaethol. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â holl staff perthnasol y APCBB a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflawni hyn, gan sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gyflawni yn unol â nodau, amcanion a pholisïau'r APCBB.



# PRIF DDYLETSWYDDAU:

Cynorthwyo'r Tîm Adfer Natur a swyddogion allweddol eraill i:

- Gyfrannu at ac i gynorthwyo gydag adferiad a rheoli natur hirdymor tir a thirweddau eraill sy'n eiddo i'r APCBB , safleoedd a nodweddion dynodedig, a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn y Parc Cenedlaethol.

- Paratoi a gweithredu adroddiadau perthnasol, cynlluniau rheoli safle, cynlluniau gweithredu a deunyddiau eraill yn seiliedig ar arolygon ecolegol ac arsylwi gwyddonol.

- Arolygu, monitro a gwerthuso nodweddion o ddiddordeb cadwraeth natur mewn cynefinoedd a safleoedd.

- Cysylltu â sefydliadau eraill a staff APCBB i hyrwyddo perthnasoedd gwaith cryf a chyfathrebu effeithiol.

- Ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd a chynnig cyngor ecolegol i gydweithwyr, trigolion, tirfeddianwyr, cynghorau a chyrff eraill fel y bo'n briodol.

- Sicrhau bod yr holl gyngor, polisi a chanllawiau a ddarperir yn gyson â chyngor, polisi, canllawiau, deddfwriaeth ac arfer gorau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol cyfredol.

- Cefnogi swyddogion eraill ac Aelodau o'r Awdurdod drwy ddarparu gwybodaeth a sgiliau sy'n helpu i addysgu a chodi ymwybyddiaeth o faterion ecolegol sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol.

- Cynnal cofnodion papur a digidol effeithiol.

- Cynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau proffesiynol, yn enwedig o ran gwybodaeth am ddatblygiadau mewn polisi, deddfwriaeth a rheoliadau rhyngwladol.

- Unrhyw ddyletswydd arall, sy'n briodol i radd a natur y swydd, fel y mae'r Prif Weithredwr yn ei gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

# MANYLEB PERSON

Meini Prawf Hanfodol:

Addysgwyd i lefel gradd gydag o leiaf anrhydedd 2:2 neu gyfwerth mewn ecoleg neu bwnc amgylcheddol tebyg neu brofiad cyfatebol yn y sector cyhoeddus a / neu anllywodraethol

O leiaf 2 flynedd o brofiad profedig, yn ddelfrydol o fewn ardal warchodedig neu awdurdod cynllunio lleol neu sefydliad cadwraeth

Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau sy'n effeithio ar ecoleg ac adferiad natur

Sgiliau cyflwyno rhyngbersonol, llafar ac ysgrifenedig rhagorol, yn gallu ac yn barod i siarad a gweithredu gydag awdurdod a hyder, gan gynrychioli'r sefydliad yn gyhoeddus

Y gallu i gynnal arolygon maes a pharodrwydd i weithio'n helaeth yn y maes, yn aml mewn amodau tywydd garw ac ar safleoedd maes anhygyrch ar y ffordd

Dealltwriaeth dda o faterion cyfredol sy'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol a sut y gellir cadw, adfer a gwella nodweddion ohonynt; dealltwriaeth dda o ble i ddod o hyd i'r cyngor arbenigol perthnasol

Llythrennog mewn defnyddio cyfrifiaduron, yn gyfarwydd â'r gyfres arferol o gymwysiadau Microsoft gan gynnwys Sharepoint a Teams yn ogystal â rheoli data sylfaenol

Yn gallu cynllunio a threfnu gwaith yn effeithiol, gan sicrhau bod allbynnau o ansawdd uchel ac yn ôl amserlen

Aelod tîm da, sy'n barod i rannu meddyliau a syniadau gyda chydweithwyr ac unigolion a sefydliadau eraill

Parodrwydd i ymgymryd â gwaith achlysurol gyda'r nos a/neu benwythnos gydag amser i ffwrdd yn lle yn ôl yr angen

Trwydded yrru ddilys a llawn

Y Gymraeg Lefel 1

Meini prawf dymunol:

Gwybodaeth ddaearyddol a systemau modelu gofodol (GIS) neu barodrwydd i ddatblygu'r sgiliau hyn

Cymraeg Lefel 2

Nodyn ar ofyniad iaith Gymraeg
Sylwer: Os nad ydych yn bodloni'r Gofynion Iaith Gymraeg a bennwyd, yna mae'r Awdurdod yn cynnig amrywiaeth o opsiynau dysgu a chymorth staff i'ch helpu i fodloni'r gofynion hyn yn ystod eich cyflogaeth gyda ni.

